CRONFA GWEITHREDU HINSAWDD

# Astudiaeth Sganio'r Gorwel

## Adolygu'r tueddiadau newydd sy'n effeithio ar weithredu hinsawdd cymunedol yn y DU 2025-2030

Gorffennaf 2025



# Cyflwyniad

Wrth i gymunedau fynd i'r afael ag effeithiau cynyddol y newid yn yr hinsawdd, mae deall y tueddiadau newydd, a allai greu heriau a/neu gyfleoedd ar gyfer gweithredu hinsawdd ar lefel lleol, yn hanfodol.

**Pwrpas yr Astudiaeth Sganio'r Gorwel hon yw adolygu'r tueddiadau newydd a allai ddylanwadu ar weithredu hinsawdd cymunedol yn y DU hyd at 2030.**

Drwy ddeall y tueddiadau hyn ac effeithiau newid, yn enwedig yng nghyd-destun newid cyflym ac anwadalrwydd, nod yr Astudiaeth Sganio'r Gorwel hon yw helpu deiliaid grantiau i ddiogelu eu gweithgareddau at y dyfodol a pharatoi ar gyfer newid. Bydd yr astudiaeth hon hefyd yn helpu i lywio cynlluniau'r Gronfa Gweithredu Hinsawdd ar gyfer y dyfodol, drwy alluogi pobl a sefydliadau i fanteisio ar gyfleoedd a pharatoi ar gyfer heriau.

## Ar gyfer pwy mae'r adroddiad hwn?

Cafodd yr Astudiaeth Sganio'r Gorwel hon ei pharatoi ym mis Gorffennaf 2025 yn bennaf ar gyfer pobl sy'n ymwneud â phrosiectau sy'n cael eu hariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, y Gronfa Gweithredu Hinsawdd, y cyfeirir atynt drwy gydol yr adroddiad hwn fel 'deiliaid grant'. Gall cynnwys yr adroddiad hwn hefyd fod yn ddefnyddiol i unigolion eraill sy'n gweithio ym maes gweithredu hinsawdd cymunedol.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Bartneriaid Dysgu a Chefnogi y Gronfa Gweithredu Hinsawdd. Mae'r bartneriaeth yn cael ei harwain gan Arup, sy'n gweithio gydag Innovation Unit, Creature & Co., a Phrifysgol Leeds. Comisiynwyd y Bartneriaeth yn 2024 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i gefnogi deiliaid grantiau y Gronfa Gweithredu Hinsawdd. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr adroddiad hwn, cysylltwch â CAFsupport@arup.com

ARUP

UNIVERSITY OF LEEDS

Innovation Unit

CREATURE & CO.

COMMUNITY FUND

Mae'r Gronfa Gweithredu Hinsawdd yn rhaglen gyllido £100 miliwn dros ddeng mlynedd sy'n ysbrydoli ac yn galluogi cymunedau ledled y DU i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Sefydlwyd y rhaglen yn 2019 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, cyllidwr mwyaf gweithgarwch cymunedol yn y DU.

# Methodoleg

## Adolygiad Llenyddiaeth

Mae canfyddiadau'r Astudiaeth Sganio'r Gorwel hon yn seiliedig ar adolygiad desg o lenyddiaeth a dogfennau polisi. Defnyddiwyd dull samplu caseg eira, a gwnaethom ddechrau’r ymchwil drwy adolygu adroddiadau allweddol o ffynonellau awdurdodol fel y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Swyddfa dros Wyddoniaeth a Thechnoleg Senedd y DU ac adroddiadau a chyhoeddiadau gan fentrau hinsawdd cymunedol eraill. O'r ffynonellau hyn, gwnaethom nodi ffynonellau perthnasol ychwanegol o'r cyfeiriadau a'r dyfyniadau yn yr erthyglau allweddol oedd eisoes wedi'u canfod. Mae rhestr lawn o'r ffynonellau a ddefnyddiwyd ar gael o sleid 31.

## Gweithdy

Yna, rhannwyd canfyddiadau cychwynnol yr astudiaeth mewn gweithdy gyda deiliaid grantiau dethol y Gronfa Gweithredu Hinsawdd. Gan ystyried profiadau uniongyrchol deiliaid grantiau gweithredu hinsawdd cymunedol, gweithredodd y gweithdy fel ymarfer dadansoddi bylchau i wirio canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth, ac i nodi unrhyw fylchau neu dueddiadau newydd oedd ddim wedi dod i'r amlwg o'r adolygiad desg. Mae dyfyniadau gan gyfranogwyr y gweithdy wedi cael eu cynnwys ym mhob rhan o’r adroddiad hwn, ac mae rhestr lawn o gyfranogwyr y gweithdy ar gael ar sleid 37.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu tueddiadau, risgiau a heriau newydd a allai ddylanwadu ar weithredu hinsawdd cymunedol yn lleol. Ei nod yw rhoi gwybodaeth am y sbardunau allweddol a allai effeithio ar gynllunio prosiectau cymunedol yn y dyfodol, ond nid yw'n gynhwysfawr. Mae'r casgliadau sy’n cael eu cyflwyno’n adlewyrchu'r llenyddiaeth sydd ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Dylid adolygu a diweddaru'r canfyddiadau dros amser gan ddefnyddio ffynonellau, safbwyntiau a deunyddiau ychwanegol wrth iddynt ddod ar gael. Paratowyd yr adroddiad gan Bartneriaeth Dysgu a Chymorth y Gronfa Gweithredu Hinsawdd, gyda chefnogaeth cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Nid yw cynnwys yr adroddiad o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

# Tueddiadau Newydd

## Diffiniadau

Mae 'Tueddiad Newydd' yn cael ei ddiffinio drwy gydol yr Astudiaeth Sganio'r Gorwel hon yn unol â diffiniad Swyddfa dros Wyddoniaeth Llywodraeth y DU (2024), sef *"patrwm gweladwy – neu newydd – o ddigwyddiadau sy'n awgrymu newid. Wrth feddwl am y dyfodol, mae 'tueddiad' yn dod yn 'sbardun' pan fydd yn gweithredu ar y maes diddordeb y polisi neu'r strategaeth".*

## Canlyniadau

Fel rhan o'r broses Sganio'r Gorwel, fe wnaethom ddechrau drwy nodi ystod eang o Dueddiadau Newydd posibl drwy adolygiad llenyddiaeth, a gymathwyd gennym i'r rhestr sydd i'w weld yn y cwmwl geiriau ar y dde.

Er mwyn gwirio ein canfyddiadau o'r llenyddiaeth, yn ystod y gweithdy i ddeiliaid grant fe wnaethom ofyn i'r cyfranogwyr ***"Beth ydych chi'n meddwl fydd y tueddiadau newydd fydd yn effeithio ar weithredu hinsawdd cymunedol dros y 5 mlynedd nesaf?".*** Roedd yr holl dueddiadau a nodwyd ganddynt wedi cael eu cofnodi drwy'r adolygiad llenyddiaeth.

Mae'r Tueddiadau Newydd sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr hir hon yn amrywio o ran maint, graddfa a lleoliad, a'r effeithiau y gallent eu cael ar waith gweithredu hinsawdd cymunedol ac maent hefyd yn amrywio o heriau, cyfleoedd, neu mewn rhai achosion, y ddau. Gallai pob un o'r tueddiadau newydd hyn fod yn destun prosiect ymchwil ynddo'i hun. Fodd bynnag, at ddibenion yr Astudiaeth Sganio'r Gorwel hon, cafodd y rhestr hon ei mireinio ar sail prif ganfyddiadau'r llenyddiaeth, ein trafodaethau o'r gweithdy i ddeiliaid grantiau, a ffocws penodol ein hastudiaeth ar dueddiadau a fydd yn effeithio ar ddeiliaid grantiau tan 2025.



# Tueddiadau Newydd

## Prosesu'r Canfyddiadau

Er mwyn darparu ffordd strwythuredig o nodi a dadansoddi'r rhestr hir o Dueddiadau Newydd a welsom, defnyddiwyd y fframwaith 'STEEPLE'. Mae'r fframwaith STEEPLE yn mapio'r tueddiadau newydd ar draws meysydd Cymdeithasol, Technolegol, Amgylcheddol, Economaidd, Gwleidyddol, Cyfreithiol a Moesegol. Drwy archwilio pob un o'r meysydd hyn, mae'r fframwaith yn sicrhau nad oes unrhyw ddylanwad allanol mawr yn cael ei anwybyddu.

Er bod y Tueddiadau Newydd wedi cael eu mapio i bileri STEEPLE penodol, nid ydynt yn sefydlog o bell ffordd, ac mae tueddiadau’n gallu croesi categorïau gwahanol e.e. gallai 'Cynyddu ymwybyddiaeth o gyfiawnder hinsawdd' fod yn dueddiad newydd yn y meysydd moesegol, cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol.

Mae adrannau canlynol yr adroddiad hwn yn mynd drwy bob un o'r Tueddiadau Newydd hyn yn fanwl, gan roi trosolwg sy'n seiliedig ar ymchwil a chrynodeb o'r effaith y gallai'r newid hwn ei chael ar ddeiliaid grantiau. Rydym hefyd wedi cynnwys crynodeb o argymhellion i ddeiliaid grantiau ar sut i fanteisio ar y cyfle neu baratoi ar gyfer y newid ym mhob tueddiad.

| Fframwaith: | Tueddiadau: |
|---|---|
| Cymdeithasol | • Cynyddu ymgysylltiad â'r cyhoedd<br>• Difaterwch hinsawdd ar lefel gymunedol<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth o gyfiawnder hinsawdd |
| Technolegol | • Arloesi technolegol<br>• Deallusrwydd artiffisial<br>• Allgáu digidol |
| Amgylcheddol | • Tywydd eithafol<br>• Rôl natur mewn heriau hinsawdd |
| Economaidd | • Trafferthion cyllido tymor hir<br>• Ffynonellau cyllido newydd ar gyfer gweithredu hinsawdd<br>• Straen ar y sector gwirfoddol |
| Gwleidyddol | • Datganoli gweithredu hinsawdd<br>• Cydbwysedd pŵer mewn gwleidyddiaeth hinsawdd |
| Cyfreithiol | • Deddfwriaeth gwyrddgalchu newydd |
| Moesegol | • Newid yn naratifau'r cyfryngau<br>• Gwybodaeth hygyrch gyfyngedig |

# Crynodeb o'r Canfyddiadau

Er bod y tueddiadau hyn wedi'u dosbarthu ym mhob colofn o'r fframwaith STEEPLE, awgrymodd yr ymchwil mai'r tueddiadau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol yw'r rhai pwysicaf o bosibl o ran llwyddiant gweithredu hinsawdd cymunedol yn y dyfodol. Y tueddiadau hyn yw'r rhai mwyaf dylanwadol yn amgylchedd gweithredu prosiectau cymunedol. Bydd addasrwydd a chynllunio ar gyfer y ffactorau hyn yn y dyfodol yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor prosiectau cymunedol sy'n cael eu hariannu gan grantiau.

Mae'n werth nodi ei bod yn ymddangos bod rhai o'r tueddiadau hyn yn gweithredu i gyfeiriadau croes; er enghraifft, cynnydd yn ymgysylltiad y gymuned â gweithredu hinsawdd ar lefel cymdeithas gyfan, ond mwy o ddifaterwch hinsawdd mewn grwpiau penodol. Mae edrych yn fanylach ar y tueddiadau hyn yn tynnu sylw at gyfleoedd wedi'u targedu ar gyfer cynllunio hirdymor deiliaid grantiau; yn yr enghraifft hon, y rheidrwydd i fabwysiadu dull gweithredu cymdeithas gyfan ar gyfer ymgysylltu, ac i dargedu'r grwpiau hynny sydd ddim wedi ymgysylltu hyd yma. Bydd rôl prosiectau cymunedol o ran codi ymwybyddiaeth, addysg a newid ymddygiad yn bwysig wrth fynd i'r afael â difaterwch hinsawdd.

**Mae'r tueddiadau newydd yn cynrychioli cymysgedd cymharol gytbwys o heriau a chyfleoedd ar gyfer dyfodol gweithredu hinsawdd cymunedol. Yn hollbwysig, bydd angen cynllunio a rheoli'r ddau beth yma yn rhagweithiol er mwyn lliniaru risgiau, manteisio ar gyfleoedd, a chynnal effaith hirdymor.**

Mae hefyd yn amlwg ym mhob un o'r tueddiadau hyn nad yw'r gorffennol yn rhagfynegydd da ar gyfer y dyfodol. Mae'r tueddiadau i gyd yn cynrychioli toriad yn y sefyllfa bresennol, o batrymau tywydd cynyddol gythryblus i ddylanwadwyr gwleidyddol newydd a modelau cyllido aflonyddgar. Mae'r rhain yn dangos yr angen i gynllunio sefydliadol, llywodraethu a gwneud penderfyniadau esblygu hefyd, er mwyn cynnwys tystiolaeth newydd a chroesawu ansicrwydd ynghylch beth fydd yn digwydd yn y dyfodol.



Baltic Flour Mill Visual Arts Trust's project Bird, Bees, and Trees. Hawlfraint: North News & Pictures ltd.



South Downs National Park Trust project, Ouse Valley Climate Action. Hawlfraint: Jeff Gilbert.

# Argymhellion

Mae'r tueddiadau a nodwyd yn yr astudiaeth hon wedi arwain at gyfres o argymhellion cyffredinol i ddeiliaid grantiau, sy'n ddefnyddiol i'w hystyried wrth archwilio'r tueddiadau eu hunain. Er mwyn cyflymu a dyfnhau effaith mentrau hinsawdd cymunedol, gallai gweithredwyr lleol fabwysiadu'r canlynol:

## Meithrin Gallu Gwleidyddol a Phartneriaethau Lleol

Mae'r cydbwysedd pŵer newidiol mewn gwleidyddiaeth leol yn golygu bod yn rhaid i ddeiliaid grantiau sydd ag amcanion prosiect hirdymor fod yn wleidyddol ymwybodol, yn hyblyg ac yn barod i feithrin perthynas â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau lleol pwy bynnag fyddan nhw. Bydd deall blaenoriaethau llywodraeth leol a rheoli cyfathrebu a strategaeth prosiectau i adlewyrchu manteision lleol amlwg (fel adfywio economaidd neu wella gwasanaethau cyhoeddus) yn hanfodol. Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau parhad a pherthnasedd beth bynnag fo'r newidiadau gwleidyddol.

## Dyfnhau ac Amrywiaethu Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae ymgysylltu'n gyffredinol â gweithredu hinsawdd yn uwch nag erioed o'r blaen, ond mae grwpiau yn y gymuned o hyd sydd naill ai'n dewis peidio ag ymgysylltu, yn teimlo na allant wneud hynny, neu ddim yn ymwybodol o'r cyfleoedd. Mae angen i ymgysylltu effeithiol fod yn hirdymor, yn gynhwysol ac wedi'i deilwra i gyd-destunau lleol. Mae hyn yn cynnwys cydnabod gwahaniaethau diwylliannol, economaidd a daearyddol o ran sut mae newid yn yr hinsawdd yn cael ei weld a sut y gweithredir arno. Gall adnoddau fel y *Toolkit for Tomorrow* helpu i ragweld rhwystrau a chyd-ddylunio atebion. Mae angen osgoi dibynnu ar yr un lleisiau a'r un dulliau cyfathrebu, yn enwedig wrth ymgysylltu â grwpiau ieuenctid a lleiafrifol, a buddsoddi mewn meithrin ymddiriedaeth dros amser.

## Defnyddio Pŵer Adrodd Straeon a Chyfryngau Lleol

Mae adrodd straeon adeiladol sy'n seiliedig ar werthoedd yn adnodd pwerus ar gyfer newid canfyddiadau a meithrin dilysrwydd. Mae modd cyflawni hyn drwy rymuso cymunedau i arwain eu naratifau eu hunain, tynnu sylw at gyd-fanteision fel iechyd a swyddi a gweithio mewn partneriaeth â chyfryngau lleol dibynadwy i ymhelaethu ar straeon o lwyddiant. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn tirwedd cyfryngau lle mae camwybodaeth a pholareiddio yn bryderon cynyddol.

## Croesawu Arloesi a Llywio Ecosystemau Ariannu Newydd

Mae datblygiadau technolegol, fel ynni solar fforddiadwy, storfeydd batri ac offer deallusrwydd artiffisial, yn gwneud atebion hinsawdd ar raddfa gymunedol yn fwy hyfyw. Gallai deiliaid grantiau archwilio'r gwersi a ddysgwyd o wobrau arloesi fel Gwobr Earthshot, Gwobr Manchester a Gwobrau Ashden. Mae arloesi mewn ffrydiau cyllido hefyd yn dueddiad allweddol i'w olrhain a'i lywio, gan arwain mewn rhai achosion at gyllid craidd tymor hirach a mwy hyblyg ar gyfer prosiectau.

## Buddsoddi mewn Partneriaethau Gwybodaeth, Data ac Ymchwil Lleol

Mae data cadarn sy'n berthnasol i'r gymuned yn hanfodol ar gyfer gweithredu hinsawdd effeithiol. Dylai deiliaid grantiau chwilio am gyfleoedd i gydweithio â'i gilydd, a gyda phrifysgolion a chanolfannau ymchwil, i gydgynhyrchu gwybodaeth, cefnogi llwyfannau data agored a meithrin llythrennedd data cymunedol. Mae hyn yn sicrhau bod gweithredu lleol yn seiliedig ar dystiolaeth a bod cymunedau'n cael eu grymuso i ddehongli a gweithredu ar wybodaeth gadarn.

## Cynnwys Rhagargoeli mewn Cynlluniau Prosiectau a Threfniadau

Mae paratoi a chynllunio ar gyfer newid yn y dyfodol - yr hyn sy'n hysbys a'r hyn sydd ddim yn hysbys - yn hanfodol i hirhoedledd unrhyw brosiect. Mae llawer o'r tueddiadau rydym yn eu gweld ar hyn o bryd yn ddigynsail ac mae ganddynt y potensial i darfu ar arferion ac ymddygiad hirsefydlog. Bydd cynnwys rhagargoeli a sganio'r gorwel mewn cynllunio ar gyfer y dyfodol, bod yn ymwybodol o newidiadau mewn rhagolygon ar y lefelau cenedlaethol a lleol (gan gynnwys rhagolygon tywydd eithafol, newidiadau gwleidyddol a newidiadau yng nghydbwysedd pŵer gwleidyddol), gwella cynlluniau parhad busnes a threfniadau rheoli risg, a chefnogi iechyd meddyliol a chorfforol timau prosiect, i gyd yn helpu prosiectau i feithrin gwytnwch mewn cyfnod cythryblus. Gall canolbwyntio ar weithgareddau sy'n cynnig nifer o fanteision (fel atebion sy'n seiliedig ar natur) fod yn ffordd gadarnhaol o fynd i'r afael ag ansicrwydd yn y dyfodol drwy brosiectau.

# Tueddiadau Cymdeithasol

# Cynyddu Ymgysylltiad â'r Cyhoedd

Mae ymgysylltiad y cyhoedd â materion hinsawdd yn y DU wedi tyfu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, gydag **85% o'r boblogaeth yn mynegi pryder am y newid yn yr hinsawdd** (Dinasyddion Hinsawdd, 2024). Mae'r ymwybyddiaeth gynyddol hon yn cael ei sbarduno gan effeithiau hinsawdd amlwg fel llifogydd a thywydd poeth, mwy o sylw yn y cyfryngau a gweithredu ar lawr gwlad.

Mae tystiolaeth o **newid o ymwybyddiaeth oddefol i gyfranogiad mwy gweithredol**, yn enwedig ar lefel leol. Mae Her Hinsawdd Leol y Gynghrair Werdd (2020) yn awgrymu bod **strwythurau llywodraethu domestig wedi dod â chyfreithiau amgylcheddol yn nes at gymunedau**, gan feithrin mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb a diddordeb yn y broses ddeddfu. Mae hefyd yn adlewyrchu newidiadau cymdeithasol ehangach, gan gynnwys **mwy o weithredu gan bobl ifanc**.

Mae mudiadau ieuenctid fel Fridays for Future a Teach the Future yn dangos yr ymgysylltiad cynyddol hwn â'r cyhoedd. Mae'r ymgyrch ieuenctid Teach the Future yn dadlau bod "yr addysg hinsawdd a natur bresennol yn annigonol" ac yn galw am "ailbwrpasu system addysg y DU ar frys o amgylch yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng ecolegol" (Teach the Future, 2024). Mae'r ymgyrchoedd hyn wedi bod yn allweddol wrth bwyso am ddiwygiadau mewn addysg hinsawdd, targedau sero net a chynrychiolaeth pobl ifanc mewn llywodraethu.

Wrth edrych i'r dyfodol, **mae disgwyl i ymgysylltu â'r cyhoedd barhau i gynyddu.** Mae Climate Citizens (2024) yn cynnig creu Panel Dinasyddion parhaol ar yr hinsawdd i sefydliadu mewnbwn cyhoeddus a gwella dilysrwydd polisïau (Climate Citizens 2024). Mae hyn yn awgrymu dyfodol lle mae ymgysylltu nid yn unig yn ehangach ond hefyd yn rhan annatod o brosesau gwneud penderfyniadau.

I ddeiliaid grantiau, **mae'r diddordeb cynyddol hwn gan y cyhoedd yn gyfle gwerthfawr. Mae cymunedau'n fwyfwy parod i ymgysylltu a gwirfoddoli**, ond mae lefelau llythrennedd hinsawdd, ymddiriedaeth a pharodrwydd i weithredu yn amrywio. Mewn ardaloedd sy'n wynebu caledi economaidd neu flinder hinsawdd, **gall prosiectau sy'n methu ag ymgysylltu'n ystyrlon wynebu gwrthwynebiad.** Ar y llaw arall, mae mentrau sy'n seiliedig ar gyd-greu a rhagargoeli cyfranogol yn fwy tebygol o feithrin gweithredu hinsawdd parhaus (Philea, 2024).



Common Flora's Abundant Life project based in Devon. Hawlfraint: Paul Slater.



South Downs National Park Trust's project Ouse Valley Climate Action. Hawlfraint: Jeff Gilbert.

# Difaterwch Hinsawdd ar Lefel Gymunedol

Er bod **y pryder cyffredinol am y newid yn yr hinsawdd yn dal yn uchel yn y DU**, gydag 80% o bobl yn dweud eu bod yn bryderus iawn neu'n eithaf pryderus (Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, 2024), nid yw'r pryder hwn wedi'i rannu'n gyfartal ar draws pob cymuned. **Mae rhai grwpiau'n dal wedi ymddieithrio, yn amheus neu'n dadflaenoriaethu gweithredu hinsawdd** oherwydd pwysau mwy uniongyrchol fel **costau byw, mynediad at dai, neu ddiweithdra.** Yn ôl ymchwil Britain Talks Climate Climate Outreach, mae llawer o bobl *"sy'n teimlo eu bod wedi'u dieithrio, eu dadrithio neu eu tangynrychioli'n wleidyddol"* hefyd yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o naratifau hinsawdd prif ffrwd, nad ydynt yn aml yn adlewyrchu eu profiadau bywyd (Wang, S., Corner, A., a Nicholls, J, 2020). Mae'r unigolion hyn yn tueddu i fod â **lefelau is o ymddiriedaeth mewn elusennau amgylcheddol** nag unrhyw segment arall.

Mae Traciwr Agweddau Cyhoeddus yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (Gaeaf 2024) yn dangos, er bod ymwybyddiaeth o darged Sero Net 2050 y DU yn uchel (91%), **mae gwybodaeth yn dal yn anwastad** ac mae pryder wedi gostwng ychydig dros amser, o 85% yn hydref 2021 i 80% yng ngaeaf 2024. Gallai hyn fod yn arwydd o lefelu posibl o ran ymgysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig ymysg grwpiau sydd ddim yn gweld manteision lleol clir o weithredu hinsawdd.

**Mae ymddieithrio yn aml wedi'i wreiddio mewn ansefydlogrwydd economaidd, naratifau diwylliannol, neu ddiffyg perthnasedd gweladwy.** Mae'r Gynghrair Werdd (2020) yn nodi bod pobl yn fwy tebygol o gefnogi gweithredu hinsawdd pan gaiff ei **arwain yn lleol a'i gysylltu â gwelliannau pendant** yn eu bywydau.

**Mae camwybodaeth hefyd yn chwarae rhan gynyddol yn y gwaith o lunio barn y cyhoedd.** Gyda'r cyfryngau cymdeithasol bellach yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth am yr hinsawdd i 40% o bobl (Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, 2024), gall cynnwys camarweiniol neu begynol atgyfnerthu amheuaeth neu ddifaterwch, yn enwedig mewn cymunedau sydd eisoes yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl.

I ddeiliaid grant, mae hyn yn her sylweddol. Mewn ardaloedd lle mae gweithredu hinsawdd yn cael ei ystyried yn amherthnasol neu'n feichus, **gall prosiectau wynebu gwrthwynebiad neu gyfranogiad isel.** Gall hyn lesteirio'r niferoedd sy'n cymryd rhan a lleihau'r effaith hirdymor. Fodd bynnag, pan mae ymgysylltu wedi'i deilwra i werthoedd, blaenoriaethau a realiti bywyd lleol, gall **ddatgloi mathau newydd o ymddiriedaeth a chyfranogiad.** Mae deall a mynd i'r afael â gwreiddiau ymddieithrio, boed yn economaidd neu'n ddiwylliannol, yn hanfodol i sicrhau gweithredu hinsawdd cynhwysol ac effeithiol.

Yn ystod y gweithdy i ddeiliaid grant, gofynnwyd i'r cyfranogwyr am yr **her neu'r cyfle newydd mwyaf i'w prosiectau** yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Un o'r ymatebion amlycaf oedd **difaterwch ar lefel gymunedol** gydag un deiliad grant yn nodi, *"Mae angen i ni **newid yr iaith** rydym yn ei defnyddio wrth ymgysylltu â chymunedau anghysbell a gwledig i rymuso yn hytrach na rhoi pwysau."*



Wildflower meadow. Hawlfraint: Arup, Jacob Haddon.

# Cynyddu Ymwybyddiaeth o Gyfiawnder Hinsawdd

**Nid yw effeithiau'r hinsawdd a'r ymatebion iddo yn cael eu profi'n gyfartal**, ac mae'r newid yn yr hinsawdd yn cael ei gydnabod fwyfwy fel **mater cyfiawnder cymdeithasol** (Parker, 2023). Mae cymunedau ymylol yn y DU, fel aelwydydd incwm isel, lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl, yn aml **yn wynebu mwy o beryglon** fel llifogydd, gorboethi ac ansawdd aer gwael, ar yr un pryd â bod â llai o adnoddau i addasu (Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2025). Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd (2025) yn nodi bod *"darpariaeth addasu'n dal yn gyfyngedig"* a bod *"cynllunio ar gyfer addasu yn parhau i fod yn dameidiog ac yn ddigyswllt"*, yn enwedig mewn cymunedau sydd eisoes yn wynebu anfantais gymdeithasol ac economaidd.

Mae Sefydliad Joseph Rowntree (Parker, 2023) yn rhybuddio, heb weithredu wedi'i dargedu, **bod perygl i bolisïau hinsawdd *"waethygu anghydraddoldebau presennol"*.** Mae fframwaith pontio teg yn galw am weithredu hinsawdd **sydd yn lleihau allyriadau a hefyd yn mynd i'r afael ag annhegwch systemig ym maes tai, cyflogaeth ac iechyd.** Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y rhai y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio fwyaf arnynt yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o lunio ymatebion. Mae llawer o **gymunedau'n dal i gael eu heithrio o brosesau gwneud penderfyniadau**, cyfleoedd cyllido a dylunio atebion hinsawdd.

Mae hyn yn her barhaus i ddeiliaid grantiau. Er bod tegwch hinsawdd yn ffocws allweddol, y cam nesaf yw **gwreiddio dulliau cyfranogol sy'n mynd ati'n rhagweithiol i gynnwys pob grŵp cymunedol** wrth greu atebion. Mae hyn yn golygu cydnabod a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal cyfranogiad ystyrlon, boed hynny'n ariannol, ieithyddol, digidol neu ddiwylliannol, a sicrhau bod gweithredu hinsawdd **nid yn unig yn deg o ran ei ganlyniadau ond yn gynhwysol yn ei brosesau.**

Wrth edrych i'r dyfodol, y risg yw y bydd gweithredu hinsawdd sy'n methu canoli tegwch a chynhwysiant yn **dwysáu'r gwahaniaethau presennol ac yn colli dilysrwydd.** Gall prosiectau sy'n ymgorffori tegwch hinsawdd cynhwysol **feithrin ymddiriedaeth, gwytnwch ac effaith hirdymor.** Fel y dywed Parker (2023), *"mae'n rhaid i bobl fod wrth galon gweithredu hinsawdd, yn enwedig y rheini y mae newid yn yr hinsawdd ac anghydraddoldeb yn effeithio fwyaf arnynt".*



Common Flora's Abundant Life project based in Devon.
Hawlfraint: Paul Slater



Hawlfraint: Arup

# Tueddiadau Technolegol

# Arloesi Technolegol

Mae arloesi technolegol yn creu **cyfleoedd newydd ar gyfer gweithredu hinsawdd cymunedol yn y DU.** Er enghraifft, mae mwy o drydaneiddio a datblygiadau o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy - yn enwedig ynni solar, gwynt a hydrogen gwyrdd - yn ei gwneud yn **fwy ymarferol i gymunedau fabwysiadu atebion ynni cynaliadwy** (Community Energy England 2024). Mae cefnogaeth barhaus llywodraeth y DU i ynni glân, gan gynnwys drwy ei Rhaglen Addasu Genedlaethol (NAP3), yn atgyfnerthu'r momentwm hwn.

Mae prosiectau ynni cymunedol yn dod yn fwyfwy poblogaidd ar draws y DU, gyda data diweddar yn dangos **cynnydd cyson mewn mentrau lleol sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy**, effeithlonrwydd ynni a modelau rhanberchnogaeth. Yn ôl adroddiad Cyflwr y Sector Ynni Cymunedol Lloegr (2024), mae'r sector wedi ehangu'n sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf, gyda **mwy o gymunedau'n cael gafael ar gyllid, cymorth technegol a chefnogaeth polisi i ddatblygu eu hatebion ynni eu hunain.**

Yng Nghymru, mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi cefnogi gosod 44.5 MW o gapasiti ynni adnewyddadwy ers 2018, digon i bweru tua 18,000 o gartrefi, **drwy ddarparu cyngor wedi'i deilwra a chymorth ariannol i grwpiau cymunedol** (Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni 2024). Yn yr un modd, mae Cynllun Ynni Cymunedol ac Adnewyddadwy'r Alban (CARES) wedi darparu dros £65 miliwn o gyllid i dros 900 o sefydliadau, gan arwain at osod 60 MW o ynni adnewyddadwy a helpu i feithrin capasiti lleol ar gyfer arweinyddiaeth ynni glân (Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni 2024). Mae'r rhaglenni datganoledig hyn yn dangos **gwerth cymorth wedi'i deilwra'n rhanbarthol o ran tyfu ynni cymunedol ac maent yn cynnig modelau gwerthfawr i'w dyblygu ar draws y DU.**

Mae **fforddiadwyedd** technolegau fel paneli solar ar y to, storfeydd batri a thyrbinau gwynt ar raddfa fach wedi **gwella'n sylweddol**, gan alluogi defnydd ar raddfa gymunedol (Community Energy England 2024). Mae Cronfa Gymunedol Great British Energy wedi'i dylunio'n benodol i gefnogi prosiectau sy'n ymwneud â'r technolegau hyn, gan eu gwneud yn **fwy hygyrch a chost-effeithiol i grwpiau lleol eu mabwysiadu** (Community Energy England, 2024). Mae datblygiadau arloesol sy'n cael eu cefnogi gan y Llywodraeth, yn cynnwys systemau ynni clyfar, hefyd yn helpu cynghorau a grwpiau lleol i nodi lle mae angen ymyriadau fwyaf a sut i'w rhoi ar waith yn gost-effeithiol (Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, 2025).

I ddeiliaid grantiau, mae hyn yn gyfle clir gan fod datblygiadau technolegol yn ei gwneud yn haws ac yn fwy cost-effeithiol i ddarparu atebion cymunedol effeithiol. **Drwy gefnogi prosiectau sy'n gwneud defnydd o'r datblygiadau arloesol hyn, gall deiliaid grantiau helpu i gyflymu mentrau newid yn yr hinsawdd tra'n annog cymunedau i gymryd perchnogaeth dros eu hynni yn y dyfodol.** Yn benodol, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd (2025) hefyd yn pwysleisio bod yn rhaid paru arloesi â seilwaith cymdeithasol cryf i sicrhau canlyniadau teg - amcan y mae'r sector cymunedol mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael ag ef.

# Deallusrwydd Artiffisial

Mae **twf cyflym Deallusrwydd Artiffisial** dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod ar flaen y drafodaeth genedlaethol, ac mae ganddo’r **potensial i chwyldroi'r ffordd rydym yn gweithio** ym mhob sector o'r economi. Mae'n annhebygol y bydd y trydydd sector yn eithriad. Yn 2023, awgrymodd Adroddiad Sgiliau Digidol Elusennau fod 35% o elusennau eisoes yn defnyddio deallusrwydd artiffisial ar gyfer tasgau penodol a bod gan 26% arall gynlluniau i wneud hynny yn y dyfodol (Amar a Ramsay, 2023).

Mae gan ddeallusrwydd artiffisial y **potensial i gynnig llawer o fanteision i ddeiliaid grantiau**, gan gynnwys helpu gwirfoddolwyr a staff sydd eisoes yn brysur i ryddhau amser gwerthfawr sy’n cael ei dreulio ar dasgau sy'n defnyddio llawer o adnoddau, fel ysgrifennu cofnodion cyfarfodydd, trefnu a dadansoddi data neu wneud gwaith ymchwil. Mae adnoddau ysgrifennu hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer **datblygu ceisiadau am gyllid, areithiau neu ddrafftio briffiau polisi** (Latham, 2024). Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi cydnabod hyn ac wedi cyhoeddi'r **10 Egwyddor Canllaw ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial mewn gwaith cymunedol** (Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, 2025).

Fodd bynnag, mae byd deallusrwydd artiffisial hefyd yn newid yn gyflym ac, fel y mae'r Comisiwn Elusennau (Latham, 2024) yn ei gynghori, mae'n ddoeth bwrw ymlaen yn ofalus gan fod llawer o risgiau'n gysylltiedig â hyn, fel defnyddio gwybodaeth ffug, diogelwch data, a thorri hawlfraint, oherwydd y ffordd gynhenid y mae deallusrwydd artiffisial wedi’i adeiladu. **Mae angen deall y risgiau hyn yn dda a'u rheoli'n ofalus.**

Er bod y tueddiad hwn wedi cael ei ddosbarthu fel her a chyfle technolegol yn yr Astudiaeth Sganio'r Gorwel hon, mae effeithiau amgylcheddol defnyddio deallusrwydd artiffisial hefyd yn her sylweddol nad ydym wedi'i harchwilio'n benodol yma.

I ddeiliaid grantiau, mae'r cynnydd mewn deallusrwydd artiffisial **yn gyfle ac yn her.** Ar un llaw, **gall offer deallusrwydd artiffisial gynyddu capasiti yn sylweddol, symleiddio gweithrediadau a gwella ansawdd allbynnau** - o geisiadau am gyllid i ddadansoddi data cymunedol. Ar y llaw arall, **mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â chamwybodaeth, preifatrwydd data a defnydd moesegol yn gofyn am ddefnydd gofalus.** Wrth i ddeallusrwydd artiffisial ddod yn rhan fwy annatod o’r trydydd sector, bydd angen i ddeiliaid grantiau feithrin hyder digidol, cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau sy'n esblygu a sicrhau bod unrhyw ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn cyd-fynd â gwerthoedd a mesurau diogelu cymunedol.

Gofynnwyd i ddeiliaid grantiau raddio eu cytundeb â'r datganiad *“Rydym yn cofleidio deallusrwydd artiffisial yn ein gwaith”* ar raddfa o 0 (anghytuno'n gryf) i 5 (cytuno'n gryf). Yr **ymateb cyfartalog oedd 2.7**, sy'n dangos mai **ychydig iawn o fabwysiadu** a fu. I'r gwrthwyneb, cafodd y datganiadau *“Mae arloesedd technolegol mewn ynni adnewyddadwy yn effeithio ar ein gwaith”* ac *“Mae allgáu digidol yn broblem sylweddol i ni”* **sgôr cyfartalog o 4**, gan dynnu sylw at eu **perthnasedd a'u heffaith uwch i ddeiliaid grantiau.**

# Allgáu Digidol

Er bod symudiad cynyddol tuag at gynnyrch ar-lein a digidol, **mae allgáu digidol yn y DU yn her sylweddol.** O ran prosiectau cymunedol, gall allgáu digidol fod ar sawl ffurf ond yn gyffredinol mae'n cyfeirio at yr heriau y mae rhai unigolion yn eu hwynebu o ran cael gafael ar dechnolegau digidol a'u defnyddio, **gan eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn mentrau cymunedol a chymdeithas yn ehangach.** Mae'r allgáu hwn yn deillio o gyfuniad o ffactorau gan gynnwys **diffyg mynediad at ddyfeisiau neu'r rhyngrwyd, sgiliau digidol annigonol, a diffyg hyder wrth ddefnyddio technoleg.**

Mae ymchwil gan Lloyds (2024) yn amcangyfrif bod 1.6 miliwn o bobl yn byw all-lein, a bod **tua chwarter poblogaeth y DU yn debygol o gael trafferth defnyddio gwasanaethau ar-lein.** Mae goresgyn hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth y DU, ac ym mis Chwefror 2025, cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol: Camau Cyntaf. Yn y Cynllun Gweithredu, mae'r Llywodraeth yn cydnabod y rôl hanfodol sydd gan y trydydd sector o ran *"cefnogi a grymuso lleisiau cymunedau sydd ddim yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Drwy ymgysylltu'n uniongyrchol ag unigolion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, mae'r sefydliadau hyn yn eirioli dros bolisïau cynhwysol, yn meithrin cydweithio â llywodraethau lleol, ac yn meithrin ymddiriedaeth mewn cymunedau".*

Yn fyd-eang, ystyrir yn aml hefyd bod y grwpiau hynny sydd fwyaf agored i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd wedi'u heithrio'n ddigidol (Hagerty, 2023). **Er bod ymgyrchoedd, cyfarfodydd a ffyrdd o weithio ar-lein yn dod yn norm, mae perygl y bydd deiliaid grantiau'n allgáu grwpiau agored i niwed mewn cymunedau, grwpiau a allai fod fwyaf angen mentrau gweithredu hinsawdd cymunedol.**

I ddeiliaid grantiau, **mae allgáu digidol yn rhwystr rhag gweithredu hinsawdd cynhwysol.** Wrth i adnoddau digidol gael eu gwreiddio'n fwy yn y gwaith o gyflawni prosiectau, fel gydag ymgynghoriadau ar-lein, mae **perygl y bydd y rheini sydd eisoes ar y cyrion yn cael eu gadael ar ôl.** Er mwyn sicrhau tegwch ac effeithiolrwydd, dylai deiliaid grantiau geisio **dylunio strategaethau ymgysylltu hybrid, buddsoddi mewn hyfforddiant sgiliau digidol a chydweithio â phartneriaid lleol dibynadwy i gyrraedd cymunedau all-lein.** Drwy fynd ati'n rhagweithiol i fynd i'r afael ag allgáu digidol, gall prosiectau ddod yn fwy cynhwysol, cadarn a chynrychioli'r cymunedau maent yn ceisio eu gwasanaethu.



Fferm Wynt Ffynnon Oer. Hawlfraint: Arup.

Pan ofynnwyd iddynt sut maent yn bwriadu defnyddio canfyddiadau'r ymarfer hwn, tynnodd un deiliad grant sylw at **bwysigrwydd mynd i'r afael ag allgáu digidol**, gan nodi y byddent yn *"parhau i edrych ar sut i ymgysylltu â'r rheini sydd ddim ar-lein ac sy'n teimlo eu bod wedi'u hallgáu".*

# Tueddiadau Amgylcheddol

# Tywydd Eithafol

Mae'r DU yn profi **tywydd eithafol mwy rheolaidd a difrifol**, gan gynnwys tywydd poeth, llifogydd a stormydd. Yn ôl y Swyddfa Dywydd, "newid yn yr hinsawdd a achosir gan bobl sy'n effeithio fwyaf ar eithafion tymheredd yn y DU", gyda nifer y diwrnodau 'poeth' (dros 28°C) yn mwy na dyblu a diwrnodau 'poeth iawn' (dros 30°C) yn mwy na threblu rhwng 1961–1990 a 2014–2023 (Y Swyddfa Dywydd, 2024).

Mae'r cynnydd hwn yn golygu bod **gweithredu hinsawdd yn fwy brys a diaros. Nid yw cymunedau bellach yn paratoi ar gyfer bygythiad pell; maent yn ymateb i amhariadau mewn amser real.** Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn rhybuddio bod y "ddarpariaeth addasu yn dal yn gyfyngedig" ac nad yw'r DU ar y trywydd iawn i gyflawni ei nodau gwydnwch (Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2025). **Mae awdurdodau lleol dan bwysau i addasu seilwaith ac amddiffyn poblogaethau sy'n agored i niwed, ond nid oes gan lawer yr adnoddau na'r gallu cynllunio tymor hir i wneud hynny'n effeithiol.**

Wrth i dywydd eithafol ddigwydd yn amlach, **un o'r prif rwystrau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer gweithredu hinsawdd cymunedol yw cost gynyddol yswiriant.** Mae premiymau yswiriant ar gyfer adeiladau cymunedol, seilwaith ynni adnewyddadwy, digwyddiadau cyhoeddus a phrosiectau lleol yn cynyddu. Mae hyn yn **rhoi straen ariannol ychwanegol ar fentrau ar lawr gwlad**, yn enwedig y rheini sy'n gweithredu ar gyllidebau tynn, sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n dibynnu ar y tywydd neu sy'n gweithio mewn ardaloedd sy'n agored i beryglon hinsawdd. Yn ôl Community Energy England, mae rhai grwpiau wedi dweud eu bod yn cael **trafferth sicrhau yswiriant fforddiadwy ar gyfer gosodiadau solar a hybiau cymunedol, sy'n gallu gohirio cyflawni prosiectau** (Community Energy England 2024).

Gall tywydd eithafol **amharu ar amserlenni prosiectau, gwneud cymunedau'n fwy agored i niwed a newid blaenoriaethau lleol.** Fodd bynnag, mae hefyd yn **creu brys a chyfleoedd i feithrin cydnerthedd.** Fel y noda Watt yn Futures Centre (2024), mae siociau hinsawdd yn dod yn **gatalyddion ar gyfer mathau newydd o gydweithio ac arloesi lleol.** Ar gyfer deiliaid grantiau, mae'r tueddiad hwn yn peri risg ac yn alwad am weithredu: **rhaid i brosiectau gael eu dylunio gyda hyblygrwydd a chadernid mewn golwg, gan ystyried y pwysau ariannol a logistaidd cynyddol a ddaw yn sgil tywydd eithafol.**



The Diana, Princess of Wales Memorial Fountain in Hyde Park, London. Hawlfraint: Arup, Daniel Imade.



Porthcawl Coastal Scheme. Hawlfraint: Arup, Marcus Woodbridge.

# Rôl Natur mewn Heriau Hinsawdd

**Mae natur yn cael ei chydnabod fwyfwy fel elfen hanfodol o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd**, nid yn unig ar gyfer lliniaru allyriadau ond hefyd ar gyfer addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r ymwybyddiaeth gynyddol hon yn cael ei hadlewyrchu yn **amlygrwydd cynyddol atebion ar sail natur**, sydd bellach yn ganolog i drafodaethau polisi hinsawdd y DU. Yn ôl y Fenter Atebion ar Sail Natur, **gall atebion ar sail natur helpu i fynd i'r afael â 33 o'r 34 o risgiau hinsawdd** a nodwyd yn nhrydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU, gan gynnig **manteision fel amddiffyn rhag llifogydd, oeri trefol, storio carbon a chynnydd mewn bioamrywiaeth** (Menter Atebion ar Sail Natur, WWF a RSPB 2021).

Mae atebion ar sail natur bellach yn dod yn flaenoriaeth polisi, gyda **llywodraeth y DU yn eu hintegreiddio i'w Rhaglen Addasu Genedlaethol a rheoliadau budd net bioamrywiaeth** (Menter Atebion ar Sail Natur, WWF a RSPB 2021). Nid yw gwyrddu trefol, adfer gwlyptiroedd a phlannu coed **yn cael eu hystyried yn bethau ychwanegol mwyach; maent yn cael eu hystyried fwyfwy yn seilwaith hanfodol ar gyfer cydnerthedd hinsawdd.** Mae hyn yn cyd-fynd â rheoliadau budd net bioamrywiaeth y DU a ddaeth i rym ar 12 Chwefror 2024. O'r dyddiad hwn ymlaen, mae bellach yn ofynnol i'r rhan fwyaf o ddatblygiadau mawr yn Lloegr **sicrhau budd net bioamrywiaeth o o leiaf 10% fel amod o ganiatâd cynllunio** (Burke 2024).

Mae'r newid hwn hefyd yn ddiwylliannol gan fod **galw cynyddol ymysg y cyhoedd am fwy o natur mewn dinasoedd**, wedi'i sbarduno gan **awydd am amgylcheddau iachach a mwy dymunol** (Awdurdod Llundain Fwyaf 2025). Crynhodd un deiliad grant y Gronfa Gweithredu Hinsawdd y tueddiad hwn gan ddweud, "mae cysylltiad agosach â natur yn elfen hanfodol o gael pobl i ddarparu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd yn ehangach ac ymgysylltu ag ef".

I ddeiliaid grant, mae tueddiad hwn yn gyfle sylweddol. **Gall integreiddio natur i ddyluniad prosiectau gynyddu effaith, denu cefnogaeth ehangach a chyd-fynd â blaenoriaethau cyllido newydd.**



Common Flora's Abundant Life project based in Devon. Hawlfraint: Paul Slater



Stainborough Park and Wentworth Castle, Barnsley. Hawlfraint: Arup, Giles Rocholl Photography.

# Tueddiadau Economaidd

# Trafferthion Cyllido Tymor Hir

Mae awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol ar draws y DU yn wynebu **heriau cyllido sylweddol sy'n llesteirio gweithredu hinsawdd hirdymor.** Mae **chwyddiant, cynnydd yn y galw am wasanaethau a blaenoriaethau polisi sy'n cystadlu â'i gilydd yn gwaethygu'r** heriau hyn. Er bod ffrydiau cyllido newydd fel Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r Grant Cyllid Gwaelodol (Llywodraeth y DU, 2025) yn ceisio sefydlogi cyllidebau lleol, maent yn **aml yn gystadleuol ac mae galw mawr amdanynt.**

Mae'r Gynghrair Werdd wedi rhybuddio bod *"ymdrechion y DU i addasu i'r hinsawdd yn cael eu tanseilio gan gyllid tameidiog ac annigonol"* (Y Gynghrair Werdd, 2020). Yn yr un modd, mae Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol, 2025) yn nodi bod **llawer o fudiadau gwirfoddol a chymunedol yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gyllid sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd** oherwydd prosesau ymgeisio cymhleth a diffyg cymorth cyllid craidd.

**Mae mynediad at y cronfeydd hyn yn dal i fod yn anghyson.** Mae llawer o'r mecanweithiau'n rhai tymor byr, cystadleuol neu weinyddol gymhleth. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi galw am *"gyllid amlflwyddyn sy'n seiliedig ar leoedd sy'n cyd-fynd â chenadaethau hinsawdd lleol"* i **sicrhau bod cymunedau'n gallu cynllunio a chyflawni prosiectau tymor hir yn effeithiol** (Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2025).

Mae pryder y gallai deiliaid grantiau ei chael hi'n anodd sicrhau cyllid parhaus ar gyfer gweithredu hinsawdd hirdymor. Gall hyn arwain at **ddarnio prosiectau, colli staff a gwirfoddolwyr a cholli effaith dros amser.** Fel y nodwyd yn adroddiad Future of Charity **"mae byrdymhoriaeth mewn cylchoedd cyllido yn un o'r rhwystrau mwyaf rhag arloesi a chydnerthedd yn y sector"** (Good Futures, 2023).

I ddeiliaid grantiau, **diffyg cyllid sefydlog, hirdymor yw un o'r rhwystrau mwyaf o hyd rhag gweithredu'n effeithiol ar y newid yn yr hinsawdd.** Gall cylchoedd cyllido tymor byr arwain at **brosiectau tameidiog, trosiant staff a llai o ymddiriedaeth gymunedol** a all danseilio'r union gydnerthedd y mae'r mentrau hyn yn ceisio ei feithrin. Er mwyn ymdopi â'r her hon, dylai deiliaid grantiau **flaenoriaethu cynllunio strategol, amrywio ffrydiau incwm ac eirioli dros fodelau cyllido mwy hyblyg dros nifer o flynyddoedd.** Bydd cydweithio â chyllidwyr i **symleiddio prosesau ymgeisio a dangos gwerth hirdymor gwaith hinsawdd cymunedol** yn allweddol i gynnal momentwm a chynyddu effaith dros amser. Mae galwad yma i gyllidwyr weithredu hefyd.



London skyline. Hawlfraint: Arup, Thomas Graham.

Mewn ymateb i gwestiwn y gweithdy 'Beth yw'r her neu'r cyfle newydd mwyaf i'ch prosiect yn ystod y 5 mlynedd nesaf, a beth ydych chi'n ei wneud i baratoi ar gyfer hyn?', dywedodd un deiliad grant: *"Mae ein cyllid yn dod i ben!"* sy'n tynnu sylw at yr **ansicrwydd parhaus y mae llawer o brosiectau'n ei wynebu ynghylch cynaliadwyedd ariannol hirdymor.**

# Ffynonellau Cyllido Newydd ar gyfer Gweithredu Hinsawdd

Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn tynnu sylw at y ffaith y gall *"gweithredu hinsawdd lleol gyflawni sero net erbyn 2050 am draean o'r gost a dwywaith yr enillion"* os caiff ei ariannu'n briodol a'i arwain yn lleol (Cymdeithas Llywodraeth Leol 2021).

Mae'r DU yn troi fwyfwy at offerynnau ariannol arloesol i ariannu gweithredu hinsawdd, gan gynnwys bondiau gwyrdd, bondiau argyfwng hinsawdd a buddsoddiadau bwrdeistrefol cymunedol. **Mae'r Tasglu Cyllid Gwyrdd (2018) wedi argymell ehangu cynnyrch benthyca gwyrdd a chyhoeddi bondiau gwyrdd sofran i sbarduno buddsoddiad mewn technolegau glân a seilwaith cadarn.** Mae'r adnoddau hyn wedi'u cynllunio i ddatgloi cyfalaf preifat er budd y cyhoedd, gan roi rhan i gymunedau yn y newid ar yr un pryd. **Mae modd defnyddio cyllid i ddatgloi buddsoddiad mewn ynni glân, atebion ar sail natur a chadernid lleol.**

Mae awdurdodau lleol fel Gorllewin Berkshire eisoes wedi treialu buddsoddiadau bwrdeistrefol cymunedol (Cyngor Gorllewin Berkshire, 2021), **gan ganiatáu i breswylwyr fuddsoddi'n uniongyrchol mewn prosiectau hinsawdd lleol.** Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu canmol am "ddemocrateiddio cyllid hinsawdd" ac am **feithrin perchnogaeth leol ar y newid i sero net** (Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2025).

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd cymunedau sy'n cynnal seilwaith ynni adnewyddadwy e.e. ffermydd solar a gwynt ar y môr yn cael **manteision ariannol uniongyrchol**, gan gynnwys **cydberchnogaeth a chronfeydd buddsoddi cymunedol.** *"Os ydych chi'n byw'n agos at fferm solar neu wynt ar y môr, dylai eich cymuned leol elwa o gefnogi'r genhadaeth genedlaethol bwysig hon"* Yr Ysgrifennydd Ynni Ed Miliband (Llywodraeth y DU, 2025).

Mae ffrydiau cyllido newydd yn cynnig **cyfleoedd i ddeiliaid grantiau arloesi a thyfu**, ond maent hefyd **yn gofyn am y capasiti a'r gallu i lywio drwy'r opsiynau, a'r capasiti a'r gallu gweinyddol i fanteisio arnynt.**



Baltic Flour Mill Visual Arts Trust's project Birds, Bees, Bikes and Trees. Hawlfraint: Gavin Forster Photography.

# Straen ar y Sector Gwirfoddol

Mae **sector gwirfoddol y DU yn chwarae rhan hollbwysig mewn gweithredu hinsawdd**, yn enwedig ar lefel leol. **Elusennau a grwpiau cymunedol yn aml yw'r ymatebwyr cyntaf i heriau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd** fel tlodi ynni a digwyddiadau tywydd eithafol. Fel y mae Cyngor Mudiadau Gwirfoddol yr Alban yn nodi, mae llawer o ffyrdd y gall elusennau'r Alban chwarae eu rhan wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd, ond *"mae gan lawer allu mewnol cyfyngedig"* ac maent yn **teimlo eu bod yn cael eu llethu gan gymhlethdod cyllid a pholisi hinsawdd** (Cyngor Mudiadau Gwirfoddol yr Alban, 2024).

Mae'r sector dan straen cynyddol oherwydd y **galw cynyddol, toriadau cyllid, a phwysau rheoleiddio.** Yn ôl Almanac Cymdeithas Sifil Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol, **mae effeithiau cyfunol y pandemig a'r argyfwng costau byw yn golygu bod elusennau llai yn arbennig o agored i niwed.**

Mae Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (2022) yn adrodd bod nifer yr elusennau sydd newydd gofrestru yn gostwng, a **bod terfyniadau'n effeithio'n anghymesur ar gymunedau sydd â llai o wasanaethau.** Er gwaethaf hyn, mae'r sector yn dal yn rym mawr, yn cyflogi bron i filiwn o bobl a chyfrannu'n sylweddol at gadernid ac arloesedd lleol (Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol, 2023).

Gall deiliaid grantiau wynebu **heriau sy'n ymwneud â diffyg adnoddau, ymdrechion tameidiog a lludded.** Fodd bynnag, mae ganddynt hefyd y cyfle i gefnogi gweithredwyr lleol dibynadwy sydd wedi'u gwreiddio mewn cymunedau ac sy'n gallu cyrraedd grwpiau sydd ddim yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

**Gall cydweithio rhwng sefydliadau cymunedol sy'n gweithio ar gynlluniau tebyg neu sy'n gweithredu yn yr un ardaloedd daearyddol ddatgloi arbedion effeithlonrwydd, lleihau dyblygu a chynyddu effaith.** Mae rhwydwaith y Gronfa Gweithredu Hinsawdd mewn sefyllfa dda i hwyluso'r cysylltiadau hyn, gan helpu deiliaid grantiau i ganfod partneriaid posibl, rhannu adnoddau a meithrin ymatebion mwy cadarn a chydlynol i heriau hinsawdd.

Mewn ymateb i gwestiwn y gweithdy **"Beth yw'r her neu'r cyfle newydd mwyaf i'ch prosiect yn ystod y 5 mlynedd nesaf, a beth ydych chi'n ei wneud i baratoi ar gyfer hyn?"**, atebodd un deiliad grant: *"costau byw cynyddol sy'n golygu bod llai o wirfoddolwyr ar gael."* Mae hyn yn adlewyrchu **pryder yn y sector gwirfoddol, lle mae pwysau ariannol yn lleihau'r gallu i gynnwys a chefnogi cymunedau.**



General views of Keswick, Cumbria. Hawlfraint: Arup, Giles Rocholl Photography

# Tueddiadau Gwleidyddol

# Datganoli Gweithredu Hinsawdd

Er bod Diwygio Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2019 yn darparu fframwaith wedi'i rwymo mewn cyfraith ar gyfer lleihau allyriadau 100% o lefelau 1990 erbyn 2050, **mae'r ddarpariaeth yn dal yn anwastad ac o dan bwysau gwleidyddol ac economaidd cynyddol** (Llywodraeth y DU, 2025). Mae awdurdodau lleol, sy'n dylanwadu ar dros 80% o allyriadau yn eu hardaloedd, y**n ganolog i gyflawni sero net ond maent yn wynebu mandadau aneglur, pwerau cyfyngedig a dim cyllid craidd ar gyfer gweithredu hinsawdd a natur** (CLlL, 2025).

Mae'r llywodraeth Lafur newydd wedi cyhoeddi'r Cynllun ar gyfer Newid, sy'n gosod cerrig milltir uchelgeisiol – ond cyflawnadwy – erbyn diwedd y Senedd hon. Ynghyd â Chynllun y Sector Diwydiannau Ynni Glân, a'r Strategaeth Seilwaith 10 Mlynedd, bydd agenda bresennol y llywodraeth ar gyfer sero net a'r cyfle y mae hyn yn ei gynnig yn genedlaethol yn effeithio ar gyflawni rhanbarthol.

**Mae Cynlluniau Gweithredu Hinsawdd Lleol wedi dod yn fwyfwy cyffredin ar draws cynghorau'r DU**, yn enwedig yn dilyn datganiadau argyfwng hinsawdd eang. Fodd bynnag, mae ansawdd, cwmpas a gweithrediad y cynlluniau hyn yn amrywio'n sylweddol. Yn ôl Cardiau Sgorio Cynlluniau Hinsawdd Cynghorau Climate Emergency UK yn 2023, **dim ond 43% o gynghorau oedd â chamau gweithredu mesuradwy, wedi'u costio ac â therfyn amser** (Climate Emergency, 2023). Mae llawer o gynlluniau'n **canolbwyntio'n drwm ar liniaru, gyda llai o bwyslais ar addasu, tegwch neu gydgynhyrchu cymunedol.**

Mae'r Gynghrair Werdd wedi tynnu sylw at y ffaith bod **awdurdodau lleol yn aml yn cael eu gadael i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd heb y pwerau, y cyllid na'r cydlynu sydd eu hangen i lwyddo**, (Y Gynghrair Werdd 2020) a bod yn rhaid gwreiddio CAPs mewn fframweithiau llywodraethu a buddsoddi ehangach er mwyn bod yn effeithiol (Llywodraeth y DU, 2022). Yn y cyfamser, mae cynghorau fel Bracknell Forest wedi dangos arweinyddiaeth drwy lansio cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth, strategaethau cymunedol a byrddau hinsawdd ar y cyd, gan ddangos beth sy'n bosibl gydag uchelgais a chydweithio lleol (Cyngor Bracknell Forest 2024). Model arall sy'n dod i'r amlwg yw'r rhwydwaith o Gomisiynau Hinsawdd lleol, fel y rheini ym Mryste, Belfast, a Swydd Efrog a Humber, sy'n dod â **rhanddeiliaid cyhoeddus, preifat a chymunedol at ei gilydd** i gyd-ddatblygu strategaethau hinsawdd sy'n seiliedig ar leoedd a sicrhau atebolrwydd. Mae'r comisiynau hyn yn dangos **sut gall strwythurau llywodraethu cydweithredol helpu i bontio'r bwlch rhwng targedau cenedlaethol a chyflawni'n lleol, gan sicrhau bod lleisiau cymunedau'n cael eu gwreiddio yn y broses o wneud penderfyniadau** (Place-Based Climate Action Network 2024). Gall diffyg cydgysylltu rhwng lefelau llywodraeth arwain at **ddyblygu, aneffeithlonrwydd a cholli cyfleoedd.**

Efallai y bydd deiliaid grantiau'n ei chael hi'n anodd llywio awdurdodaethau sy'n gorgyffwrdd neu alinio â blaenoriaethau sy'n newid, yn enwedig pan nad yw newidiadau polisi cenedlaethol yn cael eu cyfleu'n glir na'u cefnogi ar lefel leol. Gall ansicrwydd polisi ohirio prosiectau, yn enwedig y rheini sy'n dibynnu ar gydweithio yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae hefyd yn **creu cyfleoedd i fentrau cymunedol lenwi bylchau, dangos arloesedd a dylanwadu ar fframweithiau newydd.** Fel y mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn nodi, "mae arweinyddiaeth leol yn hanfodol er mwyn addasu a lliniaru'n effeithiol" ond rhaid iddi gael ei chefnogi gan bolisi a chyllid cenedlaethol clir (Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2025).

# Cydbwysedd Pŵer mewn Gwleidyddiaeth Hinsawdd

Mae ymrwymiad gwleidyddol i weithredu hinsawdd yn y DU yn newid, gyda **goblygiadau o ran sut mae polisi hinsawdd yn cael ei lunio a'i gyflawni ar lefel leol.** Yn draddodiadol, mae arweinyddiaeth hinsawdd wedi cael ei sbarduno gan gymysgedd o bolisi cenedlaethol a mewnbwn gan awdurdodau lleol (Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau 2022), gyda chonsensws eang rhwng y ddau am yr angen i weithredu. Mae etholiadau lleol diweddar wedi newid y cydbwysedd hwn, gydag **actorion gwleidyddol newydd yn cael dylanwad mewn cynghorau ar draws y wlad.** Yn y cyfamser, mae pleidiau cenedlaethol wedi herio targedau hinsawdd ac wedi nodi blaenoriaethau cenedlaethol eraill.

Mae'r newid hwn mewn pŵer gwleidyddol lleol yn peri risgiau a chyfleoedd i ddeiliaid grantiau. Efallai y bydd **mwy o wrthwynebiad i fentrau hinsawdd yn dibynnu ar y farn o fewn awdurdodau lleol.** Ar y llaw arall, mae'r dirwedd wleidyddol yn creu **lle ar gyfer dulliau gweithredu cymunedol sydd wedi'u teilwra'n fwy lleol ac sy'n cyd-fynd â gwerthoedd a blaenoriaethau'r cynghorau sydd newydd gael eu hethol.** Mae'r cyd-destun gwleidyddol sy'n esblygu yn tanlinellu **pwysigrwydd fframio gweithredu hinsawdd mewn ffyrdd sy'n atseinio ar draws y sbectrwm gwleidyddol**, gan dynnu sylw at fanteision ehangach prosiectau yn hytrach na chyfleu manteision hinsawdd a charbon yn unig. I ddeiliaid grantiau, mae'r tueddiad hwn yn **tynnu sylw at yr angen i aros yn ystwyth ac yn wleidyddol ymwybodol**, ac i gasglu tystiolaeth am yr effeithiau y mae prosiectau'n eu cael ar draws amrywiaeth o ddangosyddion cynnydd allweddol.



London Plane Tree yn Brunswick Square, Bloomsbury, London. Hawlfraint: Arup, Paul Carstairs.

# Tueddiadau Cyfreithiol

# Deddfwriaeth Gwyrddgalchu Newydd

**Mae deddfwriaeth y DU yn tynhau ei gafael ar wyrddgalchu**, gan fod ymgyfreitha a gweithgarwch rheoleiddio sy'n ymwneud â hawliadau amgylcheddol ar gynnydd. Er nad oes diffiniad cyffredinol, ystyrir yn gyffredinol bod 'Gwyrddgalchu' yn gwneud honiadau camarweiniol am gamau gweithredu amgylcheddol. Mae'n peri **risg sylweddol i unrhyw sefydliad, yn enwedig yn y trydydd sector lle mae ymddiriedaeth yn hanfodol.** Cyflwynodd Awdurdod Ymddygiad Ariannol y DU **reol gwrth-wyrddgalchu yn 2024** i fynd i'r afael â honiadau camarweiniol yn ymwneud â chynaliadwyedd cynnyrch a gwasanaethau ariannol.

**Mae elusennau a grwpiau cymunedol mewn perygl o wyrddgalchu drwy gysylltiad.** Mewn papur sy'n edrych ar sut gall elusennau a busnesau weithio gyda'i gilydd i wella cymdeithas (2022), dywedodd y Felin Drafod Pro Bono Economics, *"Er gwaethaf y cyd-fanteision cadarnhaol posibl i'r busnes a'r gymdeithas sifil, mae marchnata a chysylltiadau cyhoeddus yn faes cynyddol heriol gan ei fod yn sail i risgiau gwyrddgalchu a chalchu cymdeithasol. Mae modd defnyddio marchnata cadarnhaol am effaith cwmni mewn un maes* [er enghraifft, eu cysylltiad ag elusen] *i ddargyfeirio sylw neu gamarwain cwsmeriaid a buddsoddwyr am effeithiau negyddol posibl mewn mannau eraill"*.

**Mae elusennau a grwpiau cymunedol, sy'n aml yn gyfyngedig o ran amser, adnoddau a gwybodaeth amgylcheddol arbenigol gan wirfoddolwyr, mewn perygl o wyrddgalchu drwy ymestyn y gwirionedd neu hyrwyddo honiadau di-sail** (Marrins, 2022). Ynghyd â thwf Deallusrwydd Artiffisial yn y trydydd sector sy'n cael ei ddefnyddio fel adnodd ar gyfer drafftio cynnwys, mae'n hollbwysig gwirio ffeithiau ac adolygu sut y mae modd dehongli'r wybodaeth hon.

Mewn ymateb i gwestiwn y gweithdy "Sut ydych chi'n rhagweld defnyddio canfyddiadau'r ymarfer hwn yn eich gwaith eich hun?", **dywedodd un deiliad grant nad oedd yn gwybod am y ddeddfwriaeth gwyrddgalchu newydd**, gan ddweud: "Byddaf yn gwneud yn siŵr nad ydw i'n gwyrddgalchu! Byddaf yn edrych ar y ddeddfwriaeth hon."



Hampstead Heath, London. Hawlfraint: Arup, Paul Carstairs.

# Tueddiadau Moesegol

# Newid yn Naratifau'r Cyfryngau

**Mae naratifau'r cyfryngau ynghylch yr argyfwng hinsawdd yn esblygu.** Tra roedd *"pesimistiaeth hinsawdd"* yn arfer dominyddu'r penawdau, mae symudiad cynyddol tuag at adrodd straeon mwy adeiladol sy'n canolbwyntio ar atebion (Hagens, C., Feshbach, N., Talwar, M. a Low, J., (2024). Yn ôl Rhaglen Yale ar y Newid yn yr Hinsawdd (2024), *mae straeon hinsawdd effeithiol yn cysylltu â phobl drwy werthoedd ac emosiynau cyffredin* a *"straeon cyffredin o obaith"* sy'n tynnu sylw at y ffaith bod pob gwrandawr yn gallu gwneud gwahaniaeth. Mae'r **newid hwn yn helpu i ysbrydoli ymgysylltiad â'r cyhoedd a thynnu sylw at fentrau cymunedol llwyddiannus yn fyd-eang.**

Yn y DU, er enghraifft, mae'r **BBC wedi ymrwymo'n gyhoeddus i gynyddu ei sylw i'r newid yn yr hinsawdd** ac i fframio straeon mewn ffyrdd sy'n **wyddonol gywir ac yn grymuso** (Cynllun Pontio Sero Net y BBC 2025). Mae hyn yn cynnwys **canolbwyntio mwy ar atebion lleol, cadernid cymunedol a newid cadarnhaol.** Er enghraifft, mae sylw'r BBC i adfer morfeydd heli yn y DU yn dangos sut gall straeon lleol sy'n gyfoethog yn weledol wneud atebion hinsawdd yn ddiriaethol ac yn berthnasol (Gill, BBC News, 2025). Mae hyn yn adlewyrchu tueddiad ehangach yng nghyfryngau'r DU i **symud y tu hwnt i naratifau sy'n pegynnu a thuag at adroddiadau mwy cytbwys a chynhwysol** sy'n atseinio ar draws sbectrwm gwleidyddol a chymdeithasol.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, **mae cyfryngau lleol ac adrodd straeon cymunedol yn dal i gael eu tanddefnyddio i adeiladu momentwm hinsawdd.** Mae'r Gynhadledd Werdd (2020) wedi galw am **"fframio cyfryngol mwy cyson ac adeiladol"** i gefnogi dealltwriaeth y cyhoedd ac ewyllys wleidyddol ar gyfer gweithredu hinsawdd. **Gall fframio cyfryngol ddylanwadu'n sylweddol ar ganfyddiad y cyhoedd o brosiectau sy'n cael eu hariannu,** gan ddylanwadu ar eu dilysrwydd, eu defnydd a'r potensial o ddyblygu. Gall naratifau negyddol neu gamarweiniol leihau cefnogaeth, tra gall adrodd straeon cadarnhaol gynyddu effaith a denu partneriaid newydd.

I ddeiliaid grantiau, mae'r dirwedd cyfryngau sy'n esblygu yn her ac yn gyfle. **Gall prosiectau sy'n cyd-fynd â naratifau adeiladol ac sy'n ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyfryngau lleol elwa ar fwy o amlygrwydd a chefnogaeth gyhoeddus.**



Baltic Flour Mill Visual Arts Trust's project Birds, Bees, Bikes and Trees. Hawlfraint: Gavin Forster Photography.



Upland grasslands, UK. Hawlfraint: Arup, Neil Harwood.

# Gwybodaeth Hygyrch Gyfyngedig

Er gwaethaf y diddordeb cynyddol mewn gweithredu hinsawdd lleol, **mae llawer o gymunedau'n dal i fod heb fynediad at ddata perthnasol a chyfredol ar allyriadau, risgiau ac atebion.** Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio, blaenoriaethu a gwerthuso ymyriadau hinsawdd. Mae'r Place Based Climate Action Network yn tynnu sylw at y ffaith **bod gan brifysgolion rôl hanfodol fel gweithredwyr dinesig lleol o ran rhannu gwybodaeth**, meithrin partneriaethau cydweithredol ac ymgysylltu'n weithredol â rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo gweithredu hinsawdd effeithiol sy'n seiliedig ar leoedd (Place Based Climate Action Network, 2024).

Mae'r Tasglu Cyllid Gwyrdd hefyd yn pwysleisio'r **angen am ddata lleol ac offer cefnogi penderfyniadau gwell i ddatgloi buddsoddiad ac arwain camau gweithredu**, gan nodi bod bylchau data a darnio yn rhwystrau mawr i gynyddu cyllid gwyrdd ar y lefel gymunedol (Tasglu Cyllid Gwyrdd 2018). Heb wybodaeth gadarn a hygyrch, mae perygl i gymunedau gamddyrannu adnoddau neu beidio â mynd i'r afael â gwendidau allweddol.

Gall bylchau mewn gwybodaeth lesteirio effeithiolrwydd prosiectau cymunedol drwy **gyfyngu ar eu gallu i dargedu ymyriadau, monitro cynnydd neu ddangos effaith.** Gall hyn hefyd leihau hyder ymysg cyllidwyr a phartneriaid. Fodd bynnag, mae deiliaid grantiau mewn sefyllfa dda i bontio'r bylchau hyn drwy **hwyluso partneriaethau â sefydliadau ymchwil a chefnogi mentrau data agored.**



Hawlfraint: Arup, Neil Harwood.



The Crafty Gardener. Hawlfraint: Peter Medlicott.

# Ffynonellau a Chyfranwyr

# Rhestr Ffynonellau

Amar, Z. a Ramsay, N. (2023) Charity Digital Skills Report 2023. Charity Digital Skills. Ar gael ar: https://charitydigitalskills.co.uk/wp-content/uploads/2023/07/Charity-Digital-Skills-Report-2023.pdf

BBC (2024) BBC Net Zero Transition Plan 2024. [ar-lein] Ar gael ar: https://www.bbc.co.uk/aboutthebbc/documents/bbc-net-zero-transition-plan-2024.pdf

Cyngor Bracknell Forest (2024) Climate actions summary 2023–2024. Ar gael ar: https://www.bracknell-forest.gov.uk/council-and-democracy/climate-change/our-action-towards-net-zero/climate-actions-summary-2023-2024

Burke, M. (2024). Biodiversity net gain: where to start. Blog Natural England. Ar gael ar: https://naturalengland.blog.gov.uk/2024/01/29/biodiversity-net-gain-where-to-start/

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (2025) Progress in adapting to climate change: 2025 report to Parliament. Ar gael ar: https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2025/04/Progress-in-adapting-to-climate-change-2025-1.pdf

Climate Citizens. (2024). Getting to Net Zero: Priorities for public engagement in climate policy. Prifysgol Caerhirfryn. Ar gael ar: https://climatecitizens.org.uk/wp-content/uploads/2024/11/Getting-to-Net-Zero_Priorities-for-public-engagement-in-climate-policy_Nov_2024.pdf

Climate Emergency UK (2023) Council Climate Action Scorecards 2023. Ar gael ar: https://councilclimatescorecards.uk/

Community Energy England. (2024). State of the Sector. Ar gael ar: https://www.communityenergyengland.org/pages/state-of-the-sector

Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (2025) Cash boost for coastal towns hosting clean energy infrastructure. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/news/cash-boost-for-coastal-towns-hosting-clean-energy-infrastructure

# Rhestr Ffynonellau


Yr Adran Diogelu Ffynonellau Ynni a Sero Net. (2025). DESNZ Public Attitudes Tracker: Headline findings, Winter 2024, UK. GOV.UK. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/statistics/desnz-public-attitudes-tracker-winter-2024/desnz-public-attitudes-tracker-headline-findings-winter-2024-uk

Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (2025) UK Shared Prosperity Fund: Prospectus. [ar-lein] GOV.UK. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus/uk-shared-prosperity-fund-prospectus

Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. (2022). Local government, climate change and the environment. GOV.UK. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/collections/local-government-climate-change-and-the-environment

Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (2025) Digital Inclusion Action Plan: First Steps. GOV.UK. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/publications/digital-inclusion-action-plan-first-steps

Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg. (2025). Ten British AI breakthroughs set to cut bills and heat homes more efficiently. GOV.UK. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/news/ten-british-ai-breakthroughs-set-to-cut-bills-and-heat-homes-more-efficiently

Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. (2024). Learning from Scotland and Wales: how can the UK Government support community energy to deliver clean power? Ar gael ar: https://energysavingtrust.org.uk/report/community-energy-to-deliver-clean-power/

Awdurdod Ymddygiad Ariannol (2024) FG24/3: Finalised non-handbook guidance on the anti-greenwashing rule. Ar gael ar: https://www.fca.org.uk/publications/finalised-guidance/fg24-3-finalised-non-handbook-guidance-anti-greenwashing-rule

# Rhestr Ffynonellau


Gill, V. (2025) UK's muddy saltmarshes vital to tackle climate change. BBC News. Ar gael ar: https://www.bbc.co.uk/news/articles/c9dq9xwd97no

Good Innovation. (2023). Good Futures: The Future of Charity. Llundain: Good Innovation. Ar gael ar: https://goodfutures.co.uk/assets/uploads/Articles/Paradigm-Shift/Future-of-charity-full-report.pdf

Yr Ymddiriedolaeth Werdd (2020) Local climate action. Ar gael ar: https://green-alliance.org.uk/project/local-climate-action/

Tasglu Cyllid Gwyrdd (2018) Accelerating green finance: a report to Government by the Green Finance Taskforce. Llundain: Llywodraeth EF. Ar gael ar: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/659688dac23a1000128d0b68/green-finance-taskforce-report-accelerating-green-finance.pdf

Hagens, C., Feshbach, N., Talwar, M. a Low, J., (2024). What Makes Yale Climate Connections Stories Work? Yale Program on Climate Change Communication. Ar gael ar: https://climatecommunication.yale.edu/news-events/what-makes-yale-climate-connections-stories-work/

Hagerty, C. (2023) How climate vulnerability and the digital divide are linked. MIT Technology Review. Ar gael ar: https://www.technologyreview.com/2023/06/20/1074244/climate-vulnerability-digital-divide/

Cymdeithas Llywodraeth Leol (2024) Make it local: Acting on climate change. Ar gael ar: https://www.local.gov.uk/make-it-local-acting-climate-change

Cymdeithas Llywodraeth Leol (2025) Empowering local climate action: Advice to government. Ar gael ar: https://www.local.gov.uk/publications/empowering-local-climate-action-advice-government

# Rhestr Ffynonellau


Banc Lloyds (2024) UK Consumer Digital Index 2024. Ar gael ar: https://www.lloydsbank.com/consumer-digital-index.html

Marrins, K. (2022) How your charity can avoid 'greenwashing'. Charity Digital. Ar gael ar: https://charitydigital.org.uk/topics/how-your-charity-can-avoid-greenwashing-10317

Y Swyddfa Dywydd. (2024). Temperature extremes and records most affected by UK's changing climate. Ar gael ar: https://www.metoffice.gov.uk/about-us/news-and-media/media-centre/weather-and-climate-news/2024/temperature-extremes-and-records-most-affected-by-uks-changing-climate

Morgan, C., Studdert, J. a Tiratelli, L. (2021) Communities vs Climate Change: The power of local action. New Local. Ar gael ar: https://www.newlocal.org.uk/publications/communities-climate-change/

Menter Atebion ar Sail Natur, WWF a RSPB. (2021). Nature-based solutions in UK climate adaptation policy. Ar gael ar: https://www.naturebasedsolutionsinitiative.org/news/wwf-rspb-report-nature-based-solutions-uk-climate-adaptation-policy/

Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (2022) Five insights: Voluntary Sector Civil Society Almanac 2022. Ar gael ar: https://www.ncvo.org.uk/news-and-insights/news-index/five-insights-voluntary-sector-civil-society-almanac-2022/

Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (2023) UK Civil Society Almanac 2023: Workforce. Ar gael ar: https://www.ncvo.org.uk/news-and-insights/news-index/uk-civil-society-almanac-2023/workforce/

Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (2025) Power of Small: Key findings. Ar gae ar: https://www.ncvo.org.uk/news-and-insights/news-index/power-of-small/power-of-small-key-findings/

Parker, S. (2023) Emerging Futures at JRF – Two Years In: The Story So Far. Sefydliad Joseph Rowntree. Ar gael ar: https://www.jrf.org.uk/imagination-infrastructures/emerging-futures-at-jrf-two-years-in-the-story-so-far

# Rhestr Ffynonellau


Philea. (2024). Harnessing foresight: Philea launches futures-thinking guide for philanthropy sector. [ar-lein] Philea. Ar gael ar: https://philea.eu/harnessing-foresight-philea-launches-futures-thinking-guide-for-philanthropy-sector/

Place-Based Climate Action Network. (2024). Climate Commissions. Ar gael ar: https://www.pcancities.org.uk/climate-commissions

Robins, N., van der Horst, D., et al. (2024) Final report of the Place-Based Climate Action Network (PCAN). Ar gael ar: https://pcancities.org.uk/sites/default/files/PCAN%20final%20report_June%202024.pdf

Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol yr Alban (2024) Impact report 2023/24. Ar gael ar: https://scvo.scot/about/work/impact

Teach the Future. (2024). Teach the Future: Campaign for climate education. Ar gael ar: https://www.teachthefuture.uk/

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (2024) AI principles. Ar gael ar: https://www.tnlcommunityfund.org.uk/media/documents/AI-principles.pdf

U.S. Department of Defense (2006). Trawsgrifiad Newyddion: Deputy Secretary of Defense Gordon England Interview with American Forces Press Service. [ar-lein] Archifwyd ar: Wayback Machine. Ar gael ar: https://web.archive.org/web/20160406235718/http://archive.defense.gov/Transcripts/Transcript.aspx?TranscriptID=2636 [Accessed 27 Jun. 2025]

Wang, S., Corner, A., a Nicholls, J. (2020). Britain Talks Climate: A toolkit for engaging the British public on climate change. Rhydychen: Climate Outreach

Watt, I. (2024) The Big Emergency that isn't registering. Futures Centre. Ar gael ar: https://www.thefuturescentre.org/the-big-emergency-that-isnt-registering/

Cyngor Gorllewin Berkshire (2021.) Buddsoddiad Bwrdeistrefol Cymunedol Gorllewin Berkshire. Ar gael ar: https://www.westberks.gov.uk/article/40860/West-Berkshire-Community-Municipal-Investment-CMI

# Geirfa

Deiliaid grantiau'r Gronfa Gweithredu Hinsawdd - mae gennym ni dudalen Egluro Jargon ddefnyddiol ar Mighty Networks (sydd ar gael yma) sy'n darparu diffiniadau ar gyfer y rhain a therminoleg hinsawdd dechnegol arall!

| | |
|---|---|
| **Cymunedau** | Grŵp o bobl sydd wedi'u cysylltu drwy hunaniaeth, diddordeb neu brofiad cyffredin, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fyw yn yr un lle. Mae hefyd yn cynnwys y sefydliadau (er enghraifft, grwpiau cymunedol ac elusennau) sy'n cefnogi, grymuso a chynrychioli cymunedau. |
| **Gweithredu hinsawdd cymunedol** | Mae'n cyfeirio at fentrau sy'n cael eu gyrru gan newid yn yr hinsawdd. Mae'r camau gweithredu hyn yn aml yn cynnwys prosiectau ynni adnewyddadwy, strategaethau addasu lleol, ac ymdrechion i gynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad y cyhoedd. |
| **Rhagolwg** | Mae'n disgrifio set o ddulliau, offer a sgiliau i helpu i archwilio, rhagweld a siapio'r dyfodol. |
| **Rhagolwg cyfranogol** | Mae rhagolwg cyfranogol yn ddull sy'n canolbwyntio ar y dyfodol sy'n mynd ati i gynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, wrth lunio senarios a phrosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol. |
| **Cyd-fanteision** | Cyd-fanteision yw'r sgil-effeithiau cadarnhaol anfwriadol sy'n deillio o weithredu hinsawdd. I gael rhagor o wybodaeth am gyd-fanteision, gweler ein Hastudiaeth Cyd-Fanteision. |

# Cysylltu

Diolch yn fawr i'r sefydliadau canlynol sydd wedi rhoi grantiau ac sydd wedi gwirfoddoli i gymryd rhan yn ein gweithdy:  Ashden Climate Solutions; Changeworks Resources for Life; Datblygiadau Egni Gwledig C.B.C; ac Ulster GAA.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am gynnwys yr adroddiad hwn, neu os hoffech chi rannu unrhyw enghreifftiau o sut rydych chi'n defnyddio'r Astudiaeth Sganio'r Gorwel hon ac yn ymateb i'r tueddiadau a nodwyd, cysylltwch â: CAFSupport@arup.com

**Neu dewch o hyd i ni ar-lein** Rhwydwaith Cymunedol y Gronfa Gweithredu Hinsawdd